



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Tiwtor Cyswllt mewn Dylunio Mewnol
Lleoliad:	Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
Cyflog:	£47.74 yr awr ynghyd â 18% o dâl gwyliau

Crynodeb o'r Rôl :

Gan weithio yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, efallai y bydd gofyn i'r Tiwtor Cyswllt addysgu modiwlau ar y rhaglen BA Dylunio Mewnol, yn ogystal â modiwlau traws-Ysgol perthnasol eraill fel rhan o gwricwlwm rhyngddisgyblaethol yr Ysgol. Bydd hyn fel arfer yn achlysurol neu'n sesiynol, gan ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â safonau creadigol ac academiaidd yr Ysgol.

Gallai'r gwaith gynnwys gweithio dros staff academiaidd yn ystod cyfnodau o salwch, pan fydd staff ar absenoldeb ymchwil y cytunwyd arno, gweithio gyda'r tîm i gyflwyno'r rhaglen ar sail sesiynol drwy gydol y flwyddyn neu gyflwyno cyrsiau byr gyda'r nos neu ar benwythnosau.

Noder bod ffi'r sesiwn yn cynnwys addysgu a dyletswyddau cysylltiedig, h.y. yr awr gyflwyno ynghyd ag awr ar gyfer y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r awr gyflwyno honno gan gynnwys paratoi ac asesu.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- I gael gafael ar ddogfennau cwrs perthnasol sy'n rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud ag amcanion a gweithrediad y cwrs, gan gynnwys y maes llafur, dulliau asesu, dulliau addysgu dewisol, gwybodaeth sydd ei hangen ar fyfyrwyr, dyddiadau ac amseroedd y cwrs, ac ati , a bod yn gyfarwydd â nhw.
- I gysylltu ag aelodau tîm y rhaglen, yn ôl yr angen, er mwyn deall gofynion, cydlynu cynlluniau a chamau gweinyddol a thrafod newidiadau.
- I baratoi deunydd cwrs effeithiol a fydd yn cyflawni amcanion y cwrs, gan gynnwys gwella'r profiad dysgu trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.
- I fynychu a chyflwyno sesiynau fel y cytunwyd, darlithio, arwain trafodaethau a darparu arweiniad a chynghor fel arall a hyrwyddo dysgu, yn ôl yr angen.

- I baratoi a marcio, yn ôl yr angen, unrhyw waith ysgrifenedig cysylltiedig, gwaith stiwdio, gwaith dosbarth a phapurau arholiad, o fewn y gweithdrefnau asesu priodol.
- I roi adborth adeiladol ac amserol i fyfyrwyr ar eu cynnydd.
- I gadw cofnodion o asesiadau a phresenoldeb yn ôl gofynion y Brifysgol.
- I gadw at amseroedd agor a chau'r dosbarth yn llym.
- I sicrhau bod Pennaeth yr Adran a'r dosbarth yn cael gwybod am eu habsenoldeb, lle na ellir osgoi hyn, cyn gynted â phosibl ymlaen llaw.
- I ddarparu, lle bo'n briodol, cynllun cwrs/gwaith, set o amcanion a rhestrau darllen i fyfyrwyr.
- I fynychu cyfarfodydd, sesiynau sefydlu a datblygu yn ôl yr angen.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. Nid yw'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau i fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y bydd tasgau cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell .

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Gwasanaethau Pobl ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Tiwtor Cyswllt mewn Dylunio Mewnol

Ysgol/Uned: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

***Allwedd**

Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweiliad
Cyfl - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR GAN		
		Ff*	C*	Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda a/neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol.	✓		
	Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Cymhwyster Meistr da a/neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol.	✓		
	Doethuriaeth neu brofiad ymchwil cyfatebol.	✓		
	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i bwnc a maes proffesiynol Dylunio Mewnol.	✓	✓	✓
	Gwybodaeth gadarn mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:	✓	✓	✓
	<ul style="list-style-type: none"> • Syniadaeth Iterus • Dylunio Cysyniadau • Dylunio Manwl • Manyleb • Ymarfer Diwydiant 		✓	
	Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).		✓	
	Dealltwriaeth gadarn o addysgeg.			

Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)	<p>Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu.</p> <p>Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol.</p> <p>Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol.</p> <p>Y gallu i gynllunio llwythi gwaith.</p> <p>Y gallu i nodi meysydd i'w gwella a defnyddio menter a sgiliau datrys problemau i wella perfformiad.</p> <p>Y gallu i gyfleu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd – cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu.</p> <p>Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>
Profiad â Thâl/Di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu.	✓		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	N/A			
Gofynion eraill Iaith Gymraeg Sgiliau (Dymunol)	<u>Gwrando, Darllen, Siarad, Ysgrifennu</u> C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	✓		